# PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo, Dydd Iau, 29 Medi 2022 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Jon Harland, Carol Holliday, Alan Hughes, Terry Mendies, Gareth Sandilands (Is-gadeirydd yn Cadeirio) ac Andrea Tomlin

Roedd yr Aelodau Cyfetholedig ar gyfer Addysg, Neil Roberts, yn bresennol ar gyfer eitem 5 ar y rhaglen.

Roedd yr Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd, y Cynghorydd Gill German ac Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth, y Cynghorydd Emrys Wynne hefyd yn bresennol ar gais y Pwyllgor ar gyfer eitem 5.

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes (Swyddog Monitro) GW
Pennaeth Addysg (GD)
Rheolwr Cynllunio ac Adnoddau (IL)
Rheolwr y Rhaglen (JC)
Rheolwr Gwasanaeth Cymorth i Fusnesau a Chymunedau (NJ)
Swyddog Contractau (E J-D)
Cydlynydd Craffu (RhE)
Gweinyddwr Pwyllgorau, Gwesteiwr (KJ)
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd, cofnodion (KE)

Cynrychiolydd o KL Care LTD ar gyfer eitem 7, Canolfan Ddydd Hafan Deg

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Hugh Irving (Cadeirydd) a'r Cynghorydd Paul Keddie, ynghyd ag Aelod Cyfetholedig Kathleen Jones (Aelod Craffu Addysg yr Eglwys Gatholig). Roedd y Cynghorydd Elen Heaton (Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol hefyd wedi ymddiheuro ar gyfer eitem 6, yn ei rôl fel Aelod Arweiniol bu'n rhaid iddi fynychu cynhadledd genedlaethol oedd yn ymwneud â'i phortffolio.

Yn absenoldeb y Cadeirydd, cadeiriwyd y cyfarfod gan yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Gareth Sandilands.

Croesawyd y Cynghorydd Andrea Tomlin i'w chyfarfod cyntaf fel un o gynrychiolwyr y Grŵp Annibynnol ar y Pwyllgor.

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd yr aelodau Pwyllgor ac Aelodau Arweiniol canlynol gysylltiad personol yn eitem 5 yn eu rhinwedd fel llywodraethwyr ar gyrff llywodraethu'r ysgolion canlynol:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Ellie Chard | Ysgol Tir Morfa, Rhyl |
| Y Cynghorydd Carol Holliday | Ysgol Clawdd Offa, Prestatyn |
| Mr Neil Roberts | Ysgol y Parc, Dinbych |
| Y Cynghorydd Gareth Sandilands | Ysgol Clawdd Offa, Prestatyn |
| Y Cynghorydd Emrys Wynne | Ysgol Brynhyfryd ac Ysgol Borthyn, Rhuthun |

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro bod eu cysylltiadau yn bersonol yn unig gan fod eitem 5 yn cyfeirio at ysgolion a darpariaeth addysg y sir yn gyffredinol.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion brys gyda'r Cadeirydd na'r Cydlynydd Craffu cyn y cyfarfod.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2022. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2022 fel cofnod cywir.***

Ni chodwyd unrhyw faterion ar sail cynnwys y cofnodion.

## 5 CATEGORÏAU YSGOLION YN ÔL DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Plant, Addysg a Theuluoedd yr adroddiad (dosbarthwyd ymlaen llaw) am ymgynghoriad Llywodraeth Cymru am gategoreiddio'r Gymraeg yn unol â'i uchelgais o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, gan amlinellu goblygiadau posibl ar gyfer ysgolion a disgyblion Sir Ddinbych.

Eglurodd y Pennaeth Addysg bod ysgolion yng Nghymru wedi'u dosbarthu i bump categori ers 2007, yn amrywio o gyfrwng Saesneg, cyfrwng Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg, dwyieithog a chyfrwng Cymraeg. Fe fydd yna dri chategori newydd o dan y system newydd arfaethedig yn y sector cynradd. Roedd yna gydnabyddiaeth y gallai'r categorïau fod yn ddryslyd.

| | |
|---|---|
| Categori newydd 1: | Iaith Saesneg (categori 5 yn hanesyddol) |
| Categori newydd 2: | Dwyieithog |
| Categori newydd 3: | Cyfrwng Cymraeg (categori 1 yn flaenorol) |

Fe fydd yna is-gategori rhwng pob un o'r categorïau hynny i ysgolion eu defnyddio yn ystod y cyfnod pontio. Mae mwyafrif yr ysgolion yn Sir Ddinbych eisoes yn disgyn mewn i un o'r tri chategori.

Yn unol ag uchelgais Gymraeg Llywodraeth Cymru, byddai hyd yn oed disgwyl i ysgolion yng nghategori 1 (cyfrwng Saesneg) ddarparu 15% o gwricwlwm addysg ac allgyrsiol) trwy gyfrwng y Gymraeg fel isafswm.

Byddai'r ychydig ysgolion arferai fod yng nghategori 4 - yn darparu rhwng 20% a 50% o addysg yn Gymraeg - yn cael eu rhoi mewn i gategori pontio am hyd at 6 mlynedd tra'u bod yn paratoi i fod yn lleoliad dwyieithog.

Un o brif egwyddorion cyflwyno'r trefniadau newydd yw na ddylai ysgolion gynnig llai o ddarpariaeth Gymraeg yn y dyfodol na'r hyn a gynigiwyd yn y gorffennol.

Yn y sector uwchradd fe fydd yna 3 chategori newydd, ond byddai Categori 3 cyfrwng Cymraeg yn cael ei rannu mewn i ddau is-gategorïau.

| | |
|---|---|
| Categori 3: | Cyfrwng Cymraeg |
| Categori 3P: | Cyfrwng Cymraeg ddynodedig |

Erbyn mis Ionawr 2024 rhagwelwyd y bydd categorïau yn y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, ffurflen statudol y mae'n rhaid i ysgolion ei llenwi ar gyfer Llywodraeth Cymru, wedi newid ac na fydd y categorïau presennol yn bodoli.

Petai yna newidiadau sylweddol o dan y broses aildrefnu - newid a reoleiddir o dan adran 42 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 - byddai'n rhaid i'r cynigion fod yn destun ymgynghoriad.  Byddai'r cynlluniau yn cael eu monitro yn rhan o waith Grŵp Strategol Addysg Gymraeg.   Roedd y Grŵp yma'n cynnwys dau aelod arweiniol a dau gynrychiolydd o'r Pwyllgorau Craffu.

Fe ailadroddodd Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth bwysigrwydd y mesur i gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Roedd adnoddau wedi cael eu gweithredu i gynorthwyo staff addysgu i wella eu sgiliau Cymraeg, yn cynnwys cwrs sabothol Cymraeg 12 mis o hyd sy'n cael ei ddarparu gan Brifysgol Bangor. Mae'r cwrs hwn yn dysgu Cymraeg yn ogystal â'r fethodoleg o addysgu Cymraeg mewn ysgol, ac i allu sgwrsio yn Gymraeg yn rhan o fywyd dyddiol arferol mewn ysgolion.

Mae'r Gweinidog Addysg a'r Gymraeg wedi cyhoeddi y bydd gwersi Cymraeg i athrawon yng Nghymru yn cael eu darparu yn rhad ac am ddim yn ogystal â phobl ifanc 18 i 24 oed sydd yn dymuno parhau i wella eu sgiliau iaith.

Roedd Pennaeth profiadol bellach ar secondiad am y flwyddyn academaidd i weithio ar Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, oedd yn cynnwys ail gategoreiddio ysgolion, ac roedd swyddi pellach wedi cael eu hariannu trwy neilltuo cyllid grant i gynorthwyo â'r trefniadau pontio i ysgolion.

Fe gydnabyddir fod yna adegau pan nad oes gan rieni plant unrhyw wybodaeth am y Gymraeg, ond mae'n bwysig rhannu gohebiaeth o'r Grŵp Strategol Cymraeg mewn Addysg gan dynnu sylw at ofyniad gan nifer o sefydliadau (e.e. Heddlu Gogledd Cymru) i feddu ar lefel benodol o Gymraeg ar gyfer eu polisïau cyflogaeth er mwyn cael cefnogaeth y rhieni.

Fe fydd gan Grŵp Strategol Cymraeg mewn Addysg, gan weithio mewn partneriaeth gyda Menter Iaith, Popeth Cymraeg, Yr Urdd, Mudiad Meithrin, rôl i'w chwarae yn hyrwyddo a darparu dosbarthiadau Cymraeg i oedolion. Roedd yna gyfleusterau o fewn llyfrgelloedd Sir Ddinbych i ddysgwyr Cymraeg, yn blant ac oedolion.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymeradwyo Cynllun Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd y Cyngor ym mis Gorffennaf 2022. Serch hynny, mae'n rhaid cyflwyno cynllun gweithredu am weithredu'r cynllun i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Rhagfyr 2022. Fe fydd yna amserlenni a cherrig milltir hollbwysig yn y cynllun gweithredu, a bydd angen adrodd yn flynyddol ar y rhain.

Efallai y bydd yna oblygiadau o ran cludiant cyfrwng Cymraeg. Roedd Sir Ddinbych yn gweithredu o dan Fesur Teithio gan Ddysgwyr a oedd yn debygol o gael ei ddiwygio gan Lywodraeth Cymru gan symud ymlaen i gydweddu gyda'r newidiadau mewn categorïau. Bydd yr Awdurdod angen cyhoeddi canllawiau eglurhaol newydd o ran lle mae Polisi Cludiant Sir Ddinbych yn ffitio - bydd categorïau 1 a 2 yn hanesyddol ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg yn newid i gategori 3 - nes bod y Polisi Cludiant Dysgwyr yn cael ei ddiwygio. Bydd unrhyw newidiadau a fyddai'n cael effaith amlwg ar gludiant ysgol angen cael ei gyflwyno i'r pwyllgor craffu.

Ar ddiwedd trafodaeth fanwl:

***Penderfynwyd**:- derbyn y wybodaeth a ddarparwyd, yn amodol ar yr uchod, a –*

***(i)** **cydnabod y newidiadau y bydd eu hangen yn rhai o ysgolion y sir wrth symud ymlaen os ydi'r Awdurdod yn mynd i sicrhau cydymffurfiaeth â gweledigaeth a gofynion Llywodraeth Cymru o ran darpariaeth addysg Gymraeg; a***

***(ii)** **bod adroddiad cynnydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn hydref 2023 yn amlinellu'r gwaith cynllunio a gweithredu sydd wedi'i wneud hyd yn hyn o ran darparu Cwricwlwm a darpariaeth allgyrsiol cyfrwng Cymraeg yn ysgolion y Sir yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru.***

Ar y pwynt hwn, gyda chytundeb y Pwyllgor, cafodd trefn y busnes ar raglen y cyfarfod ei amrywio gydag eitem 7, adroddiad 'Rhaglen Waith Craffu' y Pwyllgor, yn cael ei drafod cyn eitem 6 'Diweddariad Canolfan Ddydd Hafan Deg'.

## 6 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynydd Craffu yr adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw). Roedd yna bedwar eitem wedi'u rhestru ar gyfer y Pwyllgor Craffu Perfformiad nesaf ar 24 Tachwedd:

1. Diweddariad ar Berfformiad y Cyngor (chwarter 2)
2. Cofrestr Risg Gorfforaethol (adolygiad mis Medi)
3. Cefndy Healthcare, gwerthuso dewisiadau ar gyfer darparu busnes yn y dyfodol, a

4. Crist y Gair - ymateb i arolwg Estyn.

Fe awgrymwyd y gallai'r bedwaredd eitem fod yn drafodaeth reit fanwl a fyddai'n elwa o gyfarfod ymlaen llaw i drafod strategaeth gwestiynu.

Roedd adroddiad cynnydd am Gynllun Gweithredu Strategaeth Tai a Digartrefedd Sir Ddinbych wedi cael ei ohirio tan wanwyn 2023 ar gais y Gwasanaeth tra'n aros am gasgliad adolygiad o'r Strategaeth gan y Grŵp Strategol Tai a Digartrefedd.

Roedd cyfarfod nesaf y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu wedi'i drefnu ar gyfer 24 Tachwedd. Cafodd aelodau'r Pwyllgor eu hannog i gyflwyno ffurflenni atgyfeirio ar gyfer eitemau roeddynt yn teimlo oedd angen eu craffu.

Cyfeiriwyd y Pwyllgor i atodiad 3 yr adroddiad - rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet - os byddant yn dewis eitem a oedd angen ei graffu a chynnydd atodiad 4 gyda datrysiadau Pwyllgor er gwybodaeth.

Fe:

***Benderfynwyd**:- cadarnhau rhaglen waith i'r dyfodol y Pwyllgor yn amodol ar yr uchod a diwygiadau, ynghlwm yn Atodiad 1 yr adroddiad.*

Cafodd y Pwyllgor egwyl am 10.55am cyn ailgychwyn am 11.05am.

**7 HAFAN DEG, Y RHYL**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth, Cymorth i Fusnesau a Chymunedau yr adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) a oedd yn ddiweddariad am effeithiolrwydd trosglwyddo'r cyfleuster a'r gwasanaethau a ddarperir yng nghanolfan ddydd Hafan Deg i ddarparwr allanol, gan ganolbwyntio ar y sefyllfa ar ôl y pandemig ac edrych ar y pwyllgor craffu i gefnogi i barhau â chynlluniau ar gyfer y Gwasanaeth ac ymarfer monitro rheolaidd.

Clywodd y Pwyllgor bod Hafan Deg wedi cau ar gyfer busnes yn ystod y pandemig ond mae bellach wedi ailagor, mae'n gwbl weithredol ac yn boblogaidd ymysg dinasyddion. Roedd yna rai meysydd a nodwyd i'w gwella yn unol â lleoliadau gofal cymdeithasol eraill. Mae'r Cyngor yn bwriadu gweithio gyda'r darparwr i wella a datblygu'r gwasanaeth. Yn y cyfamser, parhaodd y Tîm Contractau â'r gwaith monitro parhaol o ddarpariaeth gwasanaeth KL Care Ltd. yn Hafan Deg.

Dywedodd cynrychiolydd o'r darparwr gwasanaeth a oedd yn bresennol wrth y pwyllgor bod niferoedd presenoldeb ychydig yn is nag arfer ar hyn o bryd oherwydd salwch. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i ail ymgysylltu â bwytai archfarchnad lleol i gynnig teithiau cinio a the prynhawn i gleientiaid ac roedd disgwyl trefniant ar gyfer swper Nadolig yn fuan.

Gan ymateb i gwestiynau'r pwyllgor, dywedodd swyddogion:

- Cafodd y ganolfan ddydd ei gontractio allan yn wreiddiol yn 2018 yn sgil pryderon dros effeithiolrwydd cost gan nad oedd yr adeilad yn cael ei ddefnyddio'n llawn ac roedd angen gwaith cynnal a chadw. Cytunwyd y byddai pwy bynnag a fyddai'n rhedeg y gwasanaeth hefyd yn derbyn prydles

yr adeilad ac yn ei ddefnyddio fel canolfan gymunedol yn ogystal â'r gwasanaeth canolfan ddydd.

- Roedd y ganolfan ddydd ar agor ar ddydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Gwener ar hyn o bryd - rhwng 10:30am a 3:30pm.
- Roedd gan y ganolfan fws mini a oedd yn cael ei ddefnyddio i gasglu dinasyddion yn rhad ac am ddim i ddod i'r ganolfan ddydd.
- Roedd y gwasanaeth bws mini yn gweithio i'w gapasiti llawn. Roedd yn casglu cleientiaid o'r Rhyl a Phrestatyn. Fe awgrymwyd defnyddio Deialu a Theithio os nad oedd seddi ar gael yn y bws mini.
- Roedd y ganolfan yn cynnig y cyfleuster i ymolchi cleientiaid ond nid oedd y gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio'n aml.
- Gallai'r ganolfan ddydd derbyn 25 o gleientiaid yn gyfforddus heb orfod cael staff ychwanegol, ar y pryd roedd yna 10 o gleientiaid ar gyfartaledd yn mynychu'r ganolfan ddydd.
- Roedd y contract ar gyfer y ganolfan gofal dydd am 5 mlynedd i ddechrau, roedd gwaith yn parhau i ymestyn ei ddefnydd trwy gydol y gymuned. Byddai penderfyniad yn cael ei wneud yn y 6 mis nesaf ynglŷn â sut i symud ymlaen gyda'r contract.
- Cyn Covid, roedd taflenni'n cael eu gadael mewn meddygfeydd teulu er mwyn hyrwyddo'r gwasanaeth yn y ganolfan ddydd, cytunwyd i ailgychwyn hyn.
- Roedd yna bris penodol a gytunwyd ar gyfer y gwasanaeth gofal dydd, sef £54.60 fesul person, fesul diwrnod, a £6.00 am brydau a lluniaeth. Fe ffurfiodd hyn rhan o'r contract rhwng y Cyngor a'r darparwr ac roedd yn unol â'r ffioedd a osodwyd yn rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau gofal dydd.

Ar ddiwedd y drafodaeth, diolchodd y Pwyllgor i'r cynrychiolydd o KL Care am ddod i'r cyfarfod ac am ateb eu cwestiynau. Yna:

***<u>Penderfynodd</u>:- yr aelodau yn amodol ar yr uchod i –***

***(i) dderbyn y wybodaeth a ddarparwyd;***
***(ii) gofyn i aelodau etholedig gael adroddiad gwybodaeth am y cefndir i'r penderfyniad i gontractio gwasanaethau gofal dydd allan yn Hafan Deg; a***
***(iii) cefnogi'r gwaith o ymarfer monitro chwarterol, gyda bwriad o sicrhau bod cynlluniau ar gyfer y Ganolfan yn cael eu darparu a bod cerrig milltir allweddol yn cael eu cyrraedd.***

## 8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.35am.